# RHAGLEN - CYFARFOD BLYNYDDOL
# CYNGOR CYMUNED PISTYLL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 8fed o Orffenaf 2025** |
| **AMSER** | **7 y.h. – Cyfarfod Blynyddol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Ganolfan Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Gethin Jones** |

| | |
|---|---|
| 1. | Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Gethin Jones. Eglurwyd bod y misoedd diwethaf wedi bod yn anodd iawn yn dilyn marwolaeth sydyn y clerc- Gillian Williams a dipyn o waith wedi gorfod digwydd i gael trefn ar y dogfennau.<br>Presennol: Gethin Jones, Jina Gwyrfai, Lois Fychan, Sianelen Pleming, William Jones, Osian Williams. |
| 2. | Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd:<br>• Etholwyd Olwen Roberts fel cadeirydd am y flwyddyn.<br>• Etholwyd William Jones fel is-gadeirydd am y flwyddyn.<br>• Cadarnhawyd y panel penodi fel a ganlyn:<br><br>William Jones<br>Lois Angharad<br>Gethin Jones 9<br>Osian Williams<br>Olwen Roberts<br>Ynyr Ellis: |
| 3. | Ymddiheuriadau:<br>Derek Thomas, Griffith Jones. |
| 4. | <u>Cadarnhau cofnodion.</u><br><br>Nid oedd yn bosib cadarnhau cofnodion y flwyddyn flaenorol gan bod y copi ar goll oherwydd marwolaeth y clerc ac nid ydym wedi medru eu darganfod. |
| 5. | <u>Cynrychioaeth ar gyrff allanol</u><br>• Mynegwyd nad oedd gennym aelod allanol ar y pwyllgor Ganolfan gan mai is-bwyllgor i'r cyngor cymuned ydi o. Nid oes aelod allanol ar bwyllgor Nant Gwrtheyrn na pwyllgor y festri. Yr unig bwyllgor allanol y mae cynghorydd yn eu mynychu ydi AHNE a'r pwyllgor newydd fydd yn cael ei sefydlu gan Cymunedoli. Mae SP, fel rheol, yn cynrychioli y cyngor ar bwyllgor AHNE. |
| 6. | Asedau'r Cyngor<br>Cywirwyd bod y deffilb yn y siop ac nad yw mainc Ciliau yno mwyach. Cywirwyd enw bin baw ci West End a nodwyd bod aelod o'r cyhoedd wedi hawlio y gysgodfan i gael coed. Mae pwyllgor Ganolfan yn mynd i siarad efo'r aelod yn fuan. |
| 7. | <u>Rheolau a Pholisiau'r Cyngor</u><br><br>• Rheolau Sefydlog<br>• Rheolau Ariannol |

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gethin Jones*
*Môr a mynydd, Pistyll,Pwllheli,Gwynedd,LL536LP*
*E.bost: gethinjones@ccpistyll.cymru*
*Ffon symudol: 07976257101*

# RHAGLEN - CYFARFOD BLYNYDDOL
# CYNGOR CYMUNED PISTYLL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 8fed o Orffenaf 2025** |
| **AMSER** | **7 y.h. – Cyfarfod Blynyddol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Ganolfan Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Gethin Jones** |

| | |
|---|---|
| | • Cod Ymddygiad<br>• Polisi Cwynion<br>• Polisi Cyfryngau Cymdeithasol<br>• Polisi Rheoli Data<br>• Polisi Amgylcheddol a Bioamrywiaeth<br>• Polisi Iaith<br><br>Yn dilyn cyngor Un Llais, mae'r opsiwn o barhau â'r polisïau presennol tan y flwyddyn nesaf yn dderbyniol, oherwydd yr amgylchiadau clercio presennol. Awgrymwyd adolygu y polisïau fesul tipyn ar ôl penodi clerc newydd a chytunwyd yn unfrydol. |
| 8. | Asesiad Risg y Cyngor<br>Yn dilyn trafodaeth mabwysiadwyd asesiad risg y cyngor oedd wedi ei baratoi gan GJ. |
| 9. | Cadarnhau cynlluniau a chronfeudd wrth gefn<br>Penderfynwyd pasio y cyfrifon a'r cronfeydd wrth gefn ymlaen i'r flwyddyn nesaf yn dilyn y sefyllfa ynglŷn a'r clerc. |
| 10. | Lwfans Cynghorwyr<br>Penderfynwyd pasio y mater o lwfans cynghorwyr ymlaen i'r flwyddyn newydd dan drefn y clerc newydd. |
| 11. | Adroddiad Blynyddol y Cyngor<br>Mabwysiadwyd yr adroddiad blynyddol oedd wedi ei baratoi gan GJ (wedi hepgor yr eitem ariannol. |
| 12. | Penderfynwyd dilyn yr un drefn o gyfarfod ar yr ail nos Fawrth yn y mis am 7 o'r gloch.<br><br>Cynhelir y cyfarfod blynyddol fis Mai y flwyddyn nesaf am 7 o'r gloch ar 12 Mai. |